








GIG
CYMRU
NHS
WALES


Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)




Gwyddor
Gofal Iechyd
Cymru

Gwyddoniaeth Gofal Iechyd Proffiliau Swyddi





GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG FIOFEDDYGOL



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Chris Hopkins

Teitl swydd: Pennaeth Peirianeg Glinigol

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Fel peiriannydd clinigol, byddech chi'n defnyddio gwyddorau ffisegol a deunyddiau, ynghyd â sgiliau gweithgynhyrchu a chyfrifiadura, i helpu i wella diagnosis a thriniaeth afiechyd, a hefyd adsefydlu cleifion. Gallech fod yn rhan o reoli cylch bywyd llawn technoleg, yn ogystal â dylunio a datblygu offerynnau neu mewn ymchwil. Mae peirianwyr clinigol yn dylunio, datblygu, cefnogi a rheoli dyfeisiau meddygol. Mae ganddyn nhw rôl bwysig hefyd mewn ymchwil a datblygu. Efallai eich bod wedi'ch lleoli mewn adran ysbyty fawr sy'n cwmpasu ystod o ffiseg feddygol a gwaith peirianeg, gan roi cefnogaeth i'r holl unedau clinigol. Fel arall, fe allech chi fod yn rhan o'r tîm gwyddonol mewn uned adsefydlu, ynghyd â meddygon, nyrsys a therapyddion.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Gan weithio gyda meddygon, rwyf wedi cynllunio offer ar gyfer technegau meddygol newydd, er enghraifft, offerynnau optegol ar gyfer llawfeddygaeth dwll clo. Rwyf hefyd yn gofalu am ac yn cynnal a chadw offer meddygol datblygedig fel peiriannau delweddu a systemau monitro ac rwyf hefyd yn gwneud gwiriadau sicrhau ansawdd i sicrhau bod yr holl offer yn gweithio'n gywir ac yn ddiogel. Rwy'n mwynhau gwaith ar greu technoleg i ymchwilio i glefydau yn fawr.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

Parhau i ymchwilio i dechnolegau a thechnegau meddygol newydd sy'n cefnogi gofal iechyd.

Sut mae mynd i mewn i beirianeg glinigol?

Y cam cyntaf yw cymryd o leiaf 3 Lefel A, gan gynnwys mathemateg a ffiseg, ac yn ddelfrydol, gwyddoniaeth arall a chael graddau da.

Yr ail gam yw cymryd gradd anrhydedd lawn mewn peirianeg drydanol, biofeddygol (yn ddelfrydol) peirianeg drydanol, electronig neu fecanyddol ac anelu at gael o leiaf 2: 1. (Sylwch: Os ydych chi'n bwriadu cymhwyso'n ddiweddarach yn eich gyrfa fel Peiriannydd Siartredig, yn ddelfrydol, dylech ennill gradd peirianeg achrededig - MEng i'r rhai sy'n dechrau ar addysg uwch ar hyn o bryd. Edrychwch ar wefan y Cyngor Peirianeg i gael rhestr o gyrfaiau achrededig.)


Dim ond wedyn, fel trydydd cam, y gallwch chi edrych ar ymuno â'r rhaglen hyfforddi peirianeg glinigol yn y GIG o'r enw 'STP Training' (Raglen Hyfforddi Gwyddonwyr) sydd â nifer gyfyngedig o swyddi hyfforddi bob blwyddyn. Fe'u hariennir gan yr Adran Iechyd felly byddwch yn derbyn cyflog wrth i chi gymryd gradd MSc arbenigol mewn Peirianeg Glinigol ac yn derbyn hyfforddiant galwedigaethol mewn adran ysbyty.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Rhywun sy'n caru peirianeg a chymhwyso'r technegau hyn i ofal iechyd.



Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Colin Gibson

Teitl swydd: Peiriannydd Clinigol Ymgynghorol/Pennaeth Peirianeg Adsefydlu

Lleoliad y gwaith: Uned Peirianeg Adsefydlu Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Mae gen i adran (sydd yn cynnwys nifer o Dimau) sydd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau technegol clinigol arbenigol er mwyn bodloni anghenion cymhleth cleifion ag anabledau difrifol ledled Cymru. Fi sydd yn arwain y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu'r gwasanaethau peirianeg adsefydlu yma ac yn gweithredu fel y prif arweinydd yn y sefydliad yn y cyswllt yma, gan weithio gyda'r llywodraeth, comisiynwyr a chyrrff rheoleiddio a sectorau proffesiynol a gwirfoddol fel sy'n briodol.

Fel Peiriannydd Clinigol Ymgynghorol, rwyf yn adnodd o arbenigedd sydd yn ymateb i achosion unigol pan na fodlonir anghenion cleifion gan y gwasanaethau presennol a ddarperir gan yr adran. Rwyf yn arwain y gwaith ymchwil a datblygu sydd yn amcanu at greu atebion holistig sydd yn berthnasol i anghenion cleifion unigol a grwpiau o gleifion mewn gwasanaethau sydd yn bodoli a gwasanaethau datblygol. Rwyf yn arwain y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu addysg a hyfforddiant mewn perthynas â pheirianeg adsefydlu.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Yn helpu cleifion drwy ddatrys problemau dyrys a 'gwthio'r ffiniau'.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

Bod yn Gyfarwyddwr Clinigol un o adrannau Ffiseg Meddygol a Pheirianeg Clinigol blaenllaw Cymru.


Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

Nid oedd unrhyw hyfforddiant ffurfiol yn bodoli pan ddechreuais ar fy ngyrfa ym maes gwyddoniaeth gofal iechyd, felly rwyf wedi datblygu drwy lwybrau cyfwerth ar bob cam, yn cynnwys fy nghais llwyddiannus diweddar i ymuno â Chofrestr Gwyddonwyr Arbenigol Uwch (HSSR) yr Academi Gwyddor Gofal Iechyd (AHCS).

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Yn mwynhau gwneud gwahaniaeth drwy arwain proses o newid trawsnewidiol.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gyrfa mewn gwyddor gofal iechyd, ewch i wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y 50+ o ddisgyblaethau sydd ar gael a'r llwybrau mynediad: <https://aagic.gig.cymru/trawsnewidiad/gwyddor-gofal-iechyd-cymru/>



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Tania Silva

Teitl swydd: Technolegydd Clinigol Meddygaeth Niwclear

Lleoliad y gwaith: Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty Singleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Rôl fy swydd i yw cynnal archwiliadau gyda dibenion diagnostig a therapiwtig, boed hynny drwy ddulliau caffael gwybodaeth/delweddau neu dechnegau profi radio-imiwnedd, defnyddio meddyginiaethau wedi'i marcio â symiau bychain o isotopau ymbelydrol. Rydym yn gweithio fel tîm er mwyn rhoi'r gofal gorau i'r claf a'r teulu.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Rwyf yn mwynhau'r rhyngweithio, yr her dyddiol a'r dysgu parhaus.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?


Ymwneud â gwahanol dechnegau e.e. PET/CT a chofrestru ar gyfer gradd meistr er mwyn helpu datblygiad fy adran.

Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

Dilynais fy nghwrs gradd yn rhyngwladol (ym Mhortiwal) ble roeddwn yn arbenigo mewn gweithdrefnau Meddygaeth Niwclear yn unig. Bûm ar leoliad mewn gwahanol ganolfannau drwy gydol fy nghwrs gradd yn ogystal â mynychu gwahanol gynadleddau.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Byddai fy swydd yn siwtio rhywun sydd yn hoffi ffiseg, anatomeg, ffisioleg a gofal cleifion.



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Dr Kate Bryant

Teitl swydd: Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol, Pennaeth Ymbelydredd Heb ïoneiddio

Lleoliad y gwaith: Adran Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cymru

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol, Pennaeth Adran Ymbelydredd Di-ïoneiddio Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaeth Uwchsain Fasgwlaidd (10,000 claf / blwyddyn, yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol clinigol a gofal iechyd o bob maes clinigol), gwasanaeth sicrhau ansawdd uwchsain (5 bwrdd iechyd), Gwasanaeth Diogelu Laser, gwasanaeth UV.

Fi yw cydlynnydd hyfforddiant Gwyddonydd Clinigol Cymru Gyfan, Cadeirydd RPSSAG a darlithydd anrhydeddus ym mhrifysgolion BSc / MSc Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

- Amrywiaeth
- Mewnbyn clinigol
- Rôl gyswllt cleifion
- Rheoli pobl a gwasanaeth
- Addysgu a Hyfforddi
- Defnydd o fy sgiliau gwyddonol
- Gweithio gydag ystod eang iawn o weithwyr iechyd proffesiynol
- Potensial i arloesi a gwneud gwahaniaeth

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

- Cynyddu gweithgareddau ymchwil a datblygu
- Tyfu gwasanaethau MPCE a gwella gofal cleifion trwy arloesi mewn gwasanaethau, datblygiadau clinigol a gwyddonol.


Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

- BSc Ffiseg gyda Ffiseg Feddygol (Anrhydedd Dosbarth 1af) Prifysgol Caerdydd
- Rhaglen hyfforddi ffiseg feddygol IPEM ôl-raddedig: dipIPEM ac MSc mewn Ffiseg Ymbelydredd Meddygol (Prifysgol Abertawe).
- Hyfforddiant Rhan II IPEM (cofrestrriad HCPC)
- PhD a Diploma Dulliau Ymchwil (Prifysgol Caerdydd).
- Cyrsiau rheoli ILM (Lefelau 3 a 5),
- Ardystiad LPA
- Hyfforddiant cywerthedd HSS i ennill ardystiad ar gyfer Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

- Yn meddu ar radd ffiseg neu wyddorau ffisegol a chymwysterau lefel doethuriaeth neu gyfwerth.
- Diddordeb a phrofiad mewn Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol.
- Profiad mewn ymchwil a datblygu.
- Profiad a diddordeb mewn rheoli pobl.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gyrfa mewn gwyddor gofal iechyd, ewch i wefan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y 50+ o ddisgyblaethau sydd ar gael a'r llwybrau mynediad: <https://aagic.gig.cymru/trawsnewidiad/gwyddor-gofal-iechyd-cymru/>



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Artjoms Smakovs

Teitl swydd: Gwyddonydd Clinigol

Lleoliad y gwaith: Ffiseg Radiotherapi, Ysbyty Singleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Mae fy rôl yn ymwneud â datblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd ar gyfer pob dull o roi triniaeth ac offer a rhaglenni cyfrifiadurol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn derbyn o dosau a ragnodir a'r dosbarthiad dosau piodol, a hynny yn unol â lefelau cywirdeb derbyniol. Rwyf hefyd yn ymwneud â phrofi derbyniad a chomisiynu offer newydd megis cyflymyddion llinol, sganwyr CT ac offer ar gyfer canfod ymbelydredd. Rwyf yn gyfrifol am gynnal a chadw'r holl offer sydd ei angen ar gyfer mesur ymbelydredd. Mae gan un o'n peiriannau diweddaraf foddolrwydd nad yw erioed wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r dechnoleg hon yn cael ei defnyddio i leihau'r amser mae'n ei gymryd i roi triniaeth yn achos nifer fawr o gleifion sydd yn derbyn triniaeth canser bob dydd. Mae hwn yn gam allweddol tuag at leihau amser aros i gleifion mewn perthynas â radiotherapi, tra'n gwarchod diogelwch ac effeithiolrwydd. Hefyd, mae'r dechneg newydd hon yn agor llwybr i ddulliau trin cleifion mwy datblygedig y gallir eu defnyddio i drin mathau penodol o ganser yn gyflymach a gyda llai o sgil-ffeithiau.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Rwyf yn gweithio gyda meddygon, radiograffyddion, technolegwyr a ffisegwyr eraill. Mae'r gweithgaredd amlddisgyblaethol hwnnw

yn brin, ac fe ddysgais lawer wrth weithio gyda phobl oedd yn edrych ar yr un broblem o amrywiol onglau.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

Mae yna botensial enfawr mewn perthynas â thwf personol a phroffesiynol yn y maes yma. Mae yna ystod eang o broblemau y gallir eu taclo gyda Ffiseg Meddygol, ac mae hynny yn rhywbeth cyffrous.


Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

Mynychais un o'n digwyddiadau allgymorth a ddyluniwyd ar gyfer darpar fyfyrwyr, a chefais fy ysbrydoli gan y cyfle i weithio mewn maes ble defnyddir gwyddoniaeth fodern ar gyfer diagnosis a thrin canser. Rwyf wedi trefnu digwyddiadau allgymorth cyffelyb yn ein hadran ar ôl i mi ddechrau gweithio fel Gwyddonydd Clinigol er mwyn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol o beirianyddion a gwyddonwyr i ystyried gyrfa ym maes gofal iechyd.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Nod Ffiseg Meddygol yw gwella iechyd pobl, sydd yn nod gwerth chweil. Byddai hynny yn siwtio rhywun sydd eisiau canfod ffordd o ddefnyddio technoleg arloesol er lles cleifion.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gyrfa mewn gwyddor gofal iechyd, ewch i wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y 50+ o ddisgyblaethau sydd ar gael a'r llwybrau mynediad: <https://aagic.gig.cymru/trawsnewidiad/gwyddor-gofal-iechyd-cymru/>



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Mark Bowtell

Teitl swydd: Prif Wyddonydd Clinigol

Lleoliad y gwaith: Peirianeg Adsefydlu, Ysbyty Treforys, BIP Bae Abertawe

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

- Asesydd, rhagnodydd a dylunydd atebion seddi arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau corfforol cymhleth mewn cadeiriau olwyn
- Arweinydd gweithredol y tîm briwiau pwyso arbenigol
- Swyddog hyfforddi ar gyfer gwyddonwyr gofal iechyd
- Ymchwil a datblygu
- Person cyswllt i'r tîm amlddisgyblaethol ehangach, yn cynnwys nyrsio, therapïau a meddygol
- Cyfrifoldebau rheoli ac arwain

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

- Amrywiaeth o rolau
- Trin cleifion
- Gwahanol heriau bob dydd

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

- Grymuso eraill i wireddu eu potensial
- Gwella ansawdd a chyrhaeddiad ein gwasanaethau arbenigol
- Hwyluso rhwydweithiau cenedlaethol


Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

- Astudiaeth/ymchwil ôl-radd lefel meistr a doethuriaeth
- Cynllun hyfforddi Gwyddonwyr Clinigol gydag IPEM (cyfwerth â STP)
- Statws Peirianeg Siartredig
- Cefnogaeth ragorol gan oruchwylwyr, rheolwyr a mentoriaid

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

- Eisiau gweithio yn rheng flaen gofal iechyd fel peiriannydd
- Calon i helpu pobl eraill i wneud eu gorau
- Meddwl gwyddonol - beirniadol ond cadarnhaol

Os oes gennych ddiddordeb mewn gyrfa mewn gwyddor gofal iechyd, ewch i wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y 50+ o ddisgyblaethau sydd ar gael a'r llwybrau mynediad: <https://aaqic.gig.cymru/trawsnewidiad/gwyddor-gofal-iechyd-cymru/>



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Douglas Etheridge

Teitl swydd: Prif Dechnolegydd Ffiseg Radiotherapi

Lleoliad y gwaith: Gwasanaethau Ffiseg Radiotherapi Ffiseg Meddygol a Pheirianneg Clinigol, Ysbyty Singleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Rwyf yn cynllunio ac yn asesu ansawdd triniaeth radiotherapi ar gyfer trin cancer. Roedd hynny yn golygu amlinellu symiau targed i'w trin ac organau yr ydym eisiau eu trin sydd yn wynebu risg. Rwyf yn optimeiddio'r cynlluniau triniaethau yma ar gyfer pob safle cancer er mwyn targedu'r tiwmor tra'n ceisio lleihau sgil-ffeithiau'r driniaeth.

Rwyf hefyd yn ymwneud â chofnodi mesuriadau ar y peiriannau triniaeth er mwyn gwirio eu bod yn gweithio'n briodol ac yn ôl y disgwyl.

Un o brif elfennau fy rôl erbyn hyn yw datblygu technegau triniaeth newydd er mwyn sicrhau bod y cleifion yr ydym yn eu trin yn cael y driniaeth orau bosibl. Rwyf hefyd yn ymwneud ag optimeiddio llwybrau triniaeth er mwyn sicrhau bod popeth sydd yn gysylltiedig â thriniaeth ein cleifion yn digwydd yn gyflym, effeithlon a diogel.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Yr her o ddatblygu technegau newydd a llwybrau er mwyn rhoi'r driniaeth orau i'n cleifion.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

Rhoi triniaeth i'n holl gleifion ymhen wythnos o gydsynio i driniaeth a darparu'r driniaeth orau bosibl i'r cleifion hynny.

Fy uchelgais bersonol i fod yn rheolwr yr adran Radiotherapi.

Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

Dilynais gwrs BSc mewn Ffiseg Radiotherapi ym Mhrifysgol Abertawe a chefais swydd yn Ysbyty Singleton. Rwyf wedi cael dyrchafiad yn yr adran yn ystod fy ngyrfa 10 mlynedd. Yn ystod y cyfnod yma rwyf wedi dilyn cwrs MSc mewn Cynllunio Radiotherapi ym Mhrifysgol Sheffield Hallam yn ogystal â chyrsgau datblygu eraill.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Byddai fy swydd yn siwtio rhywun sydd yn gweithio'n galed, yn ddiwyd, sydd â llygaid craff a gallu i amlwasgio a meddwl yn ochrol. Rydych angen sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i egluro gwybodaeth gymhleth mewn ffordd syml. Mae gofyn i chi hefyd ganolbwyntio am amser hir a meddu ar sgiliau cyfrifiadurol uwch.




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)



Gwyddor
Gofal Iechyd
Cymru



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Lucy Faulkner

Teitl swydd: Technolegydd Ffiseg Radiotherapi dan Hyfforddiant

Lleoliad y gwaith: Adran Ffiseg Meddygol a Pheirianeg Clinigol, Ysbyty Singleton

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Rwyf yn creu cynlluniau triniaethau i gleifion sydd yn derbyn radiotherapi er mwyn trin eu cancer. Mae hynny yn golygu y byddaf yn amlinellu unrhyw organau sydd yn agos i'r tiwmor ar sgan CT, ac yn adrodd am unrhyw ddsos ymbelydredd a dderbynnir mewn perthynas â'r driniaeth. Fy nod yw teilwra triniaeth pob claf fel bod eu tiwmor yn derbyn digon o ymbelydredd i'w ladd, tra'n arbed unrhyw organau amgylchynol sydd yn wynebu risg. Rwyf hefyd yn creu cyfarpar sydd yn cadw cleifion yn llonydd yn ystod y driniaeth er mwyn cadw eu horganau amgylchynol yn ddiogel a llonydd.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Cyfarfod cleifion a chael rôl sydd yn canolbwyntio ar y claf. Rwyf hefyd yn mwynhau gwybod bod fy nhîm a minnau yn gwneud gwir wahaniaeth i'r cleifion yr wyf yn eu cyfarfod.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

Rwyf yn gobeithio cwblhau fy nghwrs hyfforddi a helpu i ddatblygu'r adran a'i gyrru yn ei blaen, oherwydd mae radiotherapi yn datblygu'n barhaus. Mae'r datblygiadau yma yn golygu bod cleifion yn cael triniaeth yn gyflymach a bod y driniaeth ei hun yn gyflymach, a bydd hynny yn helpu cleifion hyd yn oed mwy.


Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

Ar hyn o bryd rwyf yn cwblhau cwrs hyfforddi yn y Sefydliad Ffiseg a Pheirianeg mewn Meddygaeth, ble byddaf yn derbyn diploma ôl-radd mewn Technoleg Glinigol ar y diwedd. Mae hynny yn cynnwys ysgrifennu portffolio ar yr holl waith yr wyf yn ei wneud, a hefyd arholiad llafar ar y diwedd. Mae gen i eisoes radd mewn Ffiseg, felly rwyf yn gobeithio y bydd hynny yn fy helpu yn fy rôl.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Rhywun sydd eisiau creu newid cadarnhaol a helpu cleifion wrth weithio mewn amgylchedd o resymeg a rhesymu, a lles y cleifion yn ganolbwynt i bopeth gaiff ei wneud.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gyrfa mewn gwyddor gofal iechyd, ewch i wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y 50+ o ddisgyblaethau sydd ar gael a'r llwybrau mynediad: <https://aaqic.gig.cymru/trawsnewidiad/gwyddor-gofal-iechyd-cymru/>



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Daniel Rees

Teitl swydd: Gwyddonydd Fasgwlaidd

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Rwyf yn sganio cleifion drwy ddefnyddio uwchsain er mwyn chwilio am broblemau yn rhydweliâu a gwythiennau'r corff. Mae hynny yn cynnwys sganio gyddfau, breichiau, abdomenau a choesau at nifer o ddibenion clinigol. Rwyf yn gweithio mewn tîm o 7 o ffisegwyr meddygol, ac mae gan bob un rôl sydd ychydig yn wahanol. Rydym hefyd yn gwneud gwaith ymchwil ac yn cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod ein hymarfer yn gyfredol ac mai dyna sydd orau i'n cleifion. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda llawfeddygon fasgwlaidd, radiolegwyr a nyrsys haematoleg arbenigol er mwyn gofalu am gleifion mewn modd amlddisgyblaethol.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Rwyf wrth fy modd yn cyfuno fy ngwybodaeth wyddonol gyda gwaith clinigol. Mae gallu gweithio'n uniongyrchol â chleifion yn rhoi boddhad mawr i mi, a gall diagnosio problem roi boddhad mawr i'r cleifion ac i ninnau! Gall fod yn galed, ond mae yna bob amser rywbeth newydd i'w ddysgu a'i weld, ac mae'n sicrhau bod y gwaith yn wirioneddol ddiddorol.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?


Buaswn yn hoffi cwblhau fy PhD a chyfranogi mwy at ymchwil yn ein hadran. Rwyf hefyd yn mwynhau addysgu, felly yn y dyfodol efallai y byddaf yn ymwneud mwy â darlithio i fyfyrwyr prifysgol.

Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?


Mae gennyf radd israddedig mewn Gwyddor Biofeddygol Gymhwysol ac edrychais ar swyddi ble gallwn ddefnyddio fy ngradd ond y gallwn hefyd weithio gyda chleifion, a chanfod Gwyddor Fasgwlaidd. Llwyddais i gael hyfforddiant 'mewn swydd' a gwneud fy ngradd Meistr yn rhan amser, mewn 'Uwchsain Meddygol gydag arbenigedd Fasgwlaidd'.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Rhywun sydd â meddwl gwyddonol ond sydd yn mwynhau rhyngweithio wyneb yn wyneb gyda phobl o bob oed a chefnidir. Rhywun sydd eisiau ymwneud ag ochr feddygol y GIG ond nad yw eisiau bod yn feddyg neu'n nyrs. Rhywun sydd yn mwynhau her ond sydd eisiau gadael y gwaith bob dydd yn teimlo'n falch o'r hyn maent yn ei wneud!



GWYDDORAU FFISIOLEGOL



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Lois Attewell

Teitl swydd: Arweinydd Clinigol (Ffisioleg Resbiradol a Chwsg)

Lleoliad y gwaith: Ysbyty Prifysgol Llandochau, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Arwain tîm o Ffisiolegwyr Resbiradol a Chwsg er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyfforddiant a'r profiad o'r safon uchaf posibl mewn perthynas â'u rôl a'u bod yn cynhyrchu canlyniadau diagnostig dibynadwy.

Yn glinigol, mae fy rôl yn ymwneud ag arwain Profion Ymarfer Cardio-pwlmonaidd sydd yn ymwneud ag asesu'r systemau cardiaidd ac anadlol er mwyn canfod beth sydd yn achosi salwch neu er mwyn penderfynu ar ffitrwydd i dderbyn llawdriniaeth pan fo clefyd cardiaidd/anadlol eisoes yn hysbys. Rwyf hefyd yn arwain clinigau Apnoea Cwsg Cymhleth er mwyn diagnosio a thrin cleifion sydd yn stopio anadlu yn ystod y nos (apnoea) o ganlyniad i broblem yn yr ymennydd (apnoea cwsg canolog).

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Bod yn drefnus, gwella gwasanaeth yn rheolaidd, gweld canlyniadau gweithdrefnau diagnostig safon uchel gan y tîm, gweld y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn yr adran a phob agwedd o'r adran yn gweithio'n ddiraffferth yn ddyddiol.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

YRwyf yn rhan o dîm rhagorol o Ffisiolegwyr a staff Gweinyddol sydd yn gwneud i'r profiad o ddod i'r gwaith fod yn un pleserus. Mae fy uchelgeisiau gyrfa yn y tymor byr yn ymwneud â

gwireddu fy mhotensial yn fy rôl ac yn fy adran bresennol, yn cynnwys cael y gorau o'r staff a bodloni gofynion yr atgyfeiriadau er mwyn ehangu'r capasiti profi. Buaswn hefyd yn hoffi datblygu Hybiau Diagnostig Anadlol mewn Gofal Sylfaenol er mwyn atal yr angen i gleifion ddod i'r ysbyty am brofion Anadlol. Fy uchelgais hirdymor fyddai datblygu labordy Polysomnograffi Llawn yn y bwrdd iechyd ar gyfer cleifion ag Anhwylderau Cysgu ar wahân i Apnoea Cwsg.

Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

Cefais fy ngradd BSc mewn Ffisioleg Clinigol (Llwybr Anadlol) ym Mhrifysgol Abertawe yn 2012. Ar ôl graddio symudais i Ysbyty Brenhinol Caerwrangon fel Ffisiolegydd Anadlol band 5 am 18 mis a chael profiad sylweddol o fod yn rhan o dîm rhagorol. Yna roeddwn yn ddigon ffodus o gael swydd Ffisiolegydd Anadlol Arbenigol band 6 yn fy adran bresennol, ble gweithiais am 3 blynedd cyn cael fy swydd bresennol fel Arweinydd Clinigol band 7 yn 2017.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Rhywun sydd ag angerdd am gynnal y safonau uchaf mewn Gofal Iechyd, perfformio gweithdrefnau diagnostig o ansawdd ragorol a sicrhau profiad cadarnhaol i gleifion.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gyrfa mewn gwyddor gofal iechyd, ewch i wefan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y 50+ o ddisgyblaethau sydd ar gael a'r llwybrau mynediad: <https://aagic.gig.cymru/trawsnewidiad/gwyddor-gofal-iechyd-cymru/>




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)



Gwyddor
Gofal Iechyd
Cymru



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Ellie Blaxland

Teitl swydd: Gwyddonydd Fasgwlaidd

Lleoliad y gwaith: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Rwyf yn sganio cleifion drwy ddefnyddio uwchsain er mwyn chwilio am broblemau yn rhydweiliau a gwythiennau'r corff. Mae hynny yn cynnwys sganio gyddfau, breichiau, abdomenau a choesau at nifer o ddibenion clinigol. Rwyf yn gweithio mewn tîm o 7 o ffisegwyr meddygol, ac mae gan bob un rôl sydd ychydig yn wahanol. Rydym hefyd yn gwneud gwaith ymchwil ac yn cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod ein hymarfer yn gyfredol ac mai dyna sydd orau i'n cleifion. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda llawfeddygon fasgwlaidd, radiolegwyr a nyrsys haematoleg arbenigol er mwyn gofalu am gleifion mewn modd amlddisgyblaethol.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

Rwyf wrth fy modd yn cyfuno fy ngwybodaeth wyddonol gyda gwaith clinigol. Mae gallu gweithio'n uniongyrchol â chleifion yn rhoi boddhad mawr i mi, a gall diagnosis problem roi boddhad mawr i'r cleifion ac i ninnau! Gall fod yn galed, ond mae yna bob amser rywbeth newydd i'w ddysgu a'i weld, ac mae'n sicrhau bod y gwaith yn wirioneddol ddiddorol.

Beth yw eich uchelgeisiau gyrfa?

Buaswn yn hoffi cwblhau fy PhD a chyfranogi mwy at ymchwil yn ein hadran. Rwyf hefyd yn mwynhau addysgu, felly yn y dyfodol efallai y

byddaf yn ymwneud mwy â darlithio i fyfyrwyr prifysgol.

Sut wnaethoch chi ymuno â'ch rôl?

Mae gennyf radd israddedig mewn Gwyddor Biofeddygol Gymhwysol ac edrychais ar swyddi ble gallwn ddefnyddio fy ngradd ond y gallwn hefyd weithio gyda chleifion, a chanfod Gwyddor Fasgwlaidd. Llwyddais i gael hyfforddiant 'mewn swydd' a gwneud fy ngradd Meistr yn rhan amser, mewn 'Uwchsain Meddygol gydag arbenigedd Fasgwlaidd'.

Byddai'ch swydd yn gweddu i rywun sydd ...

Rhywun sydd â meddwl gwyddonol ond sydd yn mwynhau rhyngweithio wyneb yn wyneb gyda phobl o bob oed a chefnidir. Rhywun sydd eisiau ymwneud ag ochr feddygol y GIG ond nad yw eisiau bod yn feddyg neu'n nyrs. Rhywun sydd yn mwynhau her ond sydd eisiau gadael y gwaith bob dydd yn teimlo'n falch o'r hyn maent yn ei wneud!

Os oes gennych ddiddordeb mewn gyrfa mewn gwyddor gofal iechyd, ewch i wefan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y 50+ o ddisgyblaethau sydd ar gael a'r llwybrau mynediad: <https://aagic.qiq.cymru/trawsnewidiad/gwyddor-gofal-iechyd-cymru/>



Bywyd fel gwyddonydd gofal iechyd

Enw: Hannah Hunt

Teitl swydd: Rheolwr Uned (Ffisiolegydd Anadlol)

Lleoliad y gwaith: Adran Swyddogaeth yr Ysgyfaint ac Apnoea Cwsg, Ysbyty Athrofaol Llandochau Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Beth mae fy swydd fel gwyddonydd gofal iechyd yn ei gynnwys?

Mae fy swydd o ddydd i ddydd yn cynnwys rheoli tîm o ffisiolegwyr anadlol a chysgu sy'n perfformio ystod o brofion diagnostig ar amrywiaeth o gleifion.

Mae dwy elfen i'r adran - profi swyddogaeth yr ysgyfaint a'r gwasanaeth apnoea cwsg.

Gall y profion swyddogaeth ysgyfaint amrywio o sbirometreg syml (sy'n cynnwys y claf yn anadlu i mewn i beiriant), i brofion ymarfer corff cardio-pwlmonaidd cymhleth (sy'n cynnwys y claf yn beicio ar feic wrth gymryd mesuriadau o'u hanadlu ac ati). Gellir defnyddio'r profion hyn i gynorthwyo diagnosis mewn cleifion â chyflyrau anadlol.

Mae'r gwasanaeth apnoea cwsg unwaith eto yn cynnwys defnyddio profion diagnostig, monitor bach yn bennaf y mae'r cleifion yn mynd ag ef adref ac yn ei wisgo dros nos i fonitro eu hanadlu wrth gysgu. Os canfyddir bod gan glaf anadlu anhwylder cysgu yna bydd yn dod yn ôl i'r adran i gychwyn triniaeth a chamau dilynol.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am eich swydd?

